

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

24 Gorffennaf 2020

Cyfarfod Rhithwir

9.30 – 11.30

### SESIWN AGORED: 9.30 – 11.30

#### Presennol:

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)  
Eleri Twynog Humphries  
Gwilym Dyfri Jones  
Steve Williams  
Mike Cavanagh  
Quentin Howard  
Elin Royles

Lee Yale-Helms (Trysorydd)  
Liz Siberry  
Yr Arglwydd Aberdâr  
Anwen Jones  
Gwenllian Lansdown Davies  
Hugh Thomas

#### Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

#### Staff eraill:

Illtud Daniel	Pennaeth TGCh
Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)

#### Sylwedyddion:

Catrin Hughes	CyMAAL
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth

### 1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd

Croesawodd y Llywydd bawb i drydydd cyfarfod rhithwir Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell.

Mae'n gyfnod heriol iawn ar y Llyfrgell rhwng Covid-19 a'r sefyllfa ariannol, ac mae'r Llywydd a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd wedi mynychu sawl cyfarfod rhithwir gyda nifer o wleidyddion ac wedi gohebu gryn dipyn gyda Llywodraeth Cymru ar sawl lefel yn ystod y cyfnod yma.

Mae hefyd yn gyfnod cyffrous wrth i'r ymgynghori ar ein Gweledigaeth Strategol ddirwyn i ben wythnos yma; mae nifer o ymatebion wedi ein cyrraedd, a diolch i'r gwahanol sectorau sydd wedi ymuno mewn cyfarfodydd rhithwir i drafod y Weledigaeth.

Mae'r Llywydd a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd hefyd wedi cyfarfod mwy nag unwaith gyda Roger Lewis, Llywydd yr Amgueddfa Genedlaethol, a David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Amgueddfa i drafod y prif heriau sy'n gyffredin i'r ddau sefydliad. Bu'r cyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn.

Diolch i'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a'i dîm am gynnal y sefydliad yn ystod y cyfnod heriol yma, i Emyr Phillips a'i dîm am ofalu am lesiant ariannol y sefydliad, a diolch arbennig i'r porthorion am gynnal yr adeilad, gan eu bod hwy wedi gweithio trwy'r amser i sicrhau diogelwch y casgliadau, a chael yr adeilad yn barod i'r staff a'r cyhoedd ddychwelyd iddo.

## **1.2 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carl Williams a Steffan Roberts, Cymal.

## **1.3 Datgan Buddiannau**

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe, yn Gadeirydd WHELP ac yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, a'i fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell ar brosiect Oriol Glan-yr-Afon, Hwlfordd.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Gregynog, yn Ymddiriedolwr Cymdeithas Sir Frycheiniog, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru ac yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant

Datganodd Elin Royles ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth, a bod ei gŵr yn gweithio i S4C.

Datganodd Anwen Jones ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth.

Datganodd Eleri Twynog Humphries ei bod yn ymwneud â'r Wyl Hanes Cymru i Blant, sy'n cael ei chefnogi eleni gan Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

#### **1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 1 Mai 2020 a thrafod materion yn codi**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 1 Mai fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

##### **1.4.1 Materion yn codi o gofnodion 1 Mai**

###### **Cadwrfa Ddigidol Ddibynadwy**

Cafwyd diweddariad gan Owain Roberts a nododd fod y pwnc yma wedi ei drafod yng nghyfarfod 1 Mai, a bryd hynny'r bwriad oedd paratoi papur eglurhaol i'r cyfarfod yma. Erbyn hyn, mae'r HRC wedi cadarnhau na fydd ceisiadau am gyllid yn agor tan wanwyn 2021, ac felly, mae'r Llywydd a Quentin Howard wedi cytuno mai cyn amserol fyddai cyflwyno papur i'r Bwrdd ar hyn o bryd. Cafwyd sicrwydd y bydd y papur yn cael ei gyflwyno pan fydd yr amseru'n fwy priodol.

###### **Codi Arian**

Nododd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd y bydd yn cyflwyno adroddiad yn nes ymlaen yn y cyfarfod ond fod bwriad ail ymgynnull y Grŵp Codi Arian yn ystod mis Awst a chyflwyno adroddiad yn dilyn y trafodaethau hynny i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

#### **1.5 Cofnodion cyfarfod arbennig caeedig 4 Mehefin**

Roedd y cyfarfod yma wedi ei drefnu yn arbennig i drafod adroddiad drafft yr Adolygiad Teilwredig, ac mae'r cofnodion yn gofnod o'r trafodaethau hynny. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar y cywiriad canlynol o dan 2.4;

*Gan fod tymor Hugh Thomas fel Ymddiriedolwr yn cael ei ymestyn tan 31 Mawrth 2021 sy'n gywir, nid 31 Mawrth 2020.*

Nodwyd bod nifer o drafodaethau wedi digwydd rhwng y Llyfrgell a'r Uned Cyrff Cyhoeddus (UCC) ynglŷn â'r anghysondebau rhwng testun Cymraeg yr adroddiad a'r testun Saesneg ond mae'n dda medru adrodd fod Julia Douch, Pennaeth UCC, wedi cadarnhau erbyn hyn mai'r fersiwn Cymraeg sy'n gywir.

Nid yw'r Llyfrgell wedi derbyn yr adroddiad terfynol, ac nid yw chwaith wedi ei rannu gyda'r Dirprwy Weinidog.

## **Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad**

### **2.1 Penodiadau'r Bwrdd ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Risg**

Enwebwyd Elin Royles, Ymddiriedolwr, i ymuno â'r Pwyllgor Archwilio a Risg yng nghyfarfod caeedig y Bwrdd ar 4 Mehefin, a chymeradwywyd y penodiad yn unfrydol gan yr Ymddiriedolwyr yn y sesiwn agored yma.

Enwebwyd Rhian Evans a Janet Wademan fel aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn dilyn cyfweiliadau diweddar, ac fe gymeradwywyd y penodiadau yma hefyd gan yr Ymddiriedolwyr. Roedd bywgraffiadau'r ddwy wedi eu rhannu gyda'r Ymddiriedolwyr cyn y cyfarfod.

### **2.2 Bwrdd Cynllun Pensiwn – enwebu ymddiriedolwyr**

Mae cyfnod Hugh Thomas yn dirwyn i ben ym mis Mawrth 2021, a Colin John yng Ngorffennaf 2021. Mae angen enwebu 2 Ymddiriedolwr i gymeryd eu lle ar Fwrdd y Cynllun Pensiwn, a chael cyfnod o orgyffwrdd rhwng tymhorau'r rhai sy'n cael eu penodi a'r rhai sy'n gadael, i sicrhau rhywfaint o barhad - byddai un penodiad felly yn gwasanaethu o fis Tachwedd (disodli Hugh Thomas), a'r llall yn gwasanaethu o fis Mawrth (disodli Colin John).

Sicrhawyd yr aelodau bod cyfleoedd hyfforddiant digonol yn cael eu cynnig gan yr actwari, ac mai 3 chyfarfod y flwyddyn fyddai'r ymrwymiad amser.

Cynigiodd Anwen Jones wasanaethu fel Ymddiriedolwr y Bwrdd Cynllun Pensiwn, a chymeradwywyd y penodiad gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd Anwen yn cychwyn ar ei gwasanaeth ym mis Tachwedd 2020. Gan na chafwyd ail enwebiad, mi fydd y Llywydd yn cael trafodaethau anffurfiol gyda'r Ymddiriedolwyr i geisio annog un ohonynt i gynnig ei gwasanaeth.

### **2.3 Effaith Covid-19 ar weithgareddau a digwyddiadau**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Owain Roberts, a eglurodd fod y papur yn ymhelaethu ar y papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mai, ac wrth gyflwyno'r papur, diolchodd Owain i'r staff am eu gwaith a'u hymroddiad yn ystod y cyfnod heriol yma.

Y prif bwyntiau i'w hamlygu oedd bod;

- Mynediad i wasanaethau digidol wedi parhau, gyda chynnydd o 21.2% mewn ymweliadau yn ystod Ebrill - Mai (o'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol y llynedd), a chynnydd o 5.2% yn ystod mis Mehefin. Roedd y cynnydd mewn traffig o'r cyfryngau cymdeithasol 80.9% yn uwch a 24.6% yn uwch o draffig organig
- Rhaglen ddigwyddiadau rhithiol wedi ei lansio ar 21 Mai - hyd at 7 Gorffennaf, roedd 10 o ddigwyddiadau wedi eu cynnal trwy Zoom Webinar gyda 3 digwyddiad yn cael eu darlledu ar Facebook Live. Cafwyd ymateb positif i'r gyfres Curaduron yn Cyflwyno gyda chyfartaledd views ar Facebook Live yn 1,000 ar gyfer y 3 digwyddiad
- 5 adnodd dysgu digidol newydd wedi eu cyhoeddi ar Hwb
- Gwaith cymunedol rhaglen Casgliad y Werin yn parhau trwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth dros y We (Zoom)
- Platfform torfoli yn parhau i fod yn weithredol, ac mae 2 brosiect newydd bellach wedi eu paratoi i'w rhyddhau

Mae staff sy'n ymwneud â gwaith cadwraethol wedi cychwyn yn ôl yn yr adeilad ers 20 Gorffennaf, a gan fod yr Asiantaeth Adnau Cyfreithiol yn bwriadu cyflenwi eitemau o 28 Gorffennaf, bwriedir sicrhau fod staff ar y safle i'w prosesu o'r dyddiad hwnnw.

Mi fydd mynediad i'r cyhoedd i'r Ystafelloedd Darllen yn cychwyn ym mis Medi; oherwydd y cyfyngiadau mi fydd yn rhaid addasu'r gwasanaeth gyda nifer cyfyngedig o ddarllenwyr yn ymweld ar sail archebu ymlaen llaw.

Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr i'r Llyfrgell ystyried y canlynol;

- ehangu'r rhaglen digido ar gais, gan fod yna botensial i godi incwm
- parhau i gynnig digwyddiadau rhithiol gan fod potensial i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd
- annog rhoddion ar gyfer digwyddiadau sydd am ddim
- adeiladu ymhellach ar ddarparu adnoddau addysgol
- bod yn fwy hyderus o ran y dylanwad y gall y Llyfrgell ei gael ar fywydau cymunedau

## 2.4 Effaith Covid-19 ar y sefyllfa ariannol

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd at y costau ychwanegol sydd wedi deillio o Covid-19, sef;

- £75k ar gyfer gliniaduron i staff gael gweithio gartref, a chostau addasu'r adeilad erbyn iddynt ddychwelyd
- Colled o £70k y mis mewn incwm masnachol
- Toriad o £200k mewn blwyddyn (in year cut)

Mae Llywyddion a Prif Weithredwyr y Llyfrgell a'r Amgueddfa Genedlaethol wedi cyflwyno llythyr ar y cyd ar ran dau brif gorff diwylliannol Cymru i'r Dirprwy Weinidog mewn perthynas â'r £59m sydd wedi ei ddsrannu i Gymru gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi'r sector diwylliant a chelfyddydau. Mae'r llythyr yn pwysleisio gwerth y ddau sefydliad nid yn unig i'r sector diwylliannol ond hefyd i'r sectorau ieuchyd ac addysg a'u gwerth i economi Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr aelodau ynglŷn â pha ganran o gyllid diwylliant mae'r Llyfrgell yn ei dderbyn, nododd Catrin Hughes, CyMAAL nad oedd cyllid penodol ar gyfer diwylliant yng Nghymru yn bodoli, a'i fod yn dod o gyllid canolog y Llywodraeth.

Petai arian yn cael ei roi i'r Llyfrgell, mae'r Tîm Gweithredol wedi cydnabod yr angen i fuddsoddi'n helaeth yn y llyfrgell ddigidol. Mae Illtud Daniel yn paratoi papur i'w gyflwyno i Jeremy Miles, sy'n gyfrifol am yr adfywiad ar ôl Covid-19, ar sut y medrir cryfhau isadeiledd gwybodaeth a'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni hyn.

Mae'r cynllun furlough wedi golygu mwy o incwm i'r Llyfrgell na'r incwm masnachol sydd wedi ei golli ond bydd incwm furlough yn dod i ben yn yr hydref, a bryd hynny, bydd y Llyfrgell yn gwneud colled sylweddol ar ei hincwm masnachol. Gofynnwyd cwestiwn gan un aelod a oedd gwasanaethau masnachol y Llyfrgell yn gwneud elw, yn enwedig Pendinas, a chytunodd David Michael i drafod hyn gyda'r aelod yn dilyn y cyfarfod.

Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Awst i drafod yr holl faterion ariannol yma.

## **2.5 Diweddariad Codi Arian**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd oedd yn rhoi crynodeb o'r gweithgaredd codi arian a fu rhwng Mai- Gorffennaf. Mae'n gyfnod heriol yng nghyd-destun Covid-19 ac yn gyfnod lle mae'r Llyfrgell wedi sylweddoli'r perygl o orddibynnu ar arian cyhoeddus, sydd yn mynd yn brinnach bob dydd. Bwriedir felly ail ymgynnull y Grŵp Codi Arian yn ystod mis Awst - yr aelodau presennol yw'r Arglwydd Aberdâr ac Eleri Twynog Humphries, a byddai'n braf medru ychwanegu dau/dwy aelod arall at y grŵp. Dylai unrhyw aelod sydd â diddordeb i ymuno â'r Grŵp gysylltu gyda Chlerc y Bwrdd.

## **2.6 Dangosyddion Cyflawni Ebrill – Mehefin 2020**

Cyflwynwyd y dangosyddion gan Owain Roberts, a dynnodd sylw at y ddau ddangosydd oedd wedi tan gyflawni a'r rhai oedd heb wybodaeth ar eu cyfer;

- (i) Mae nifer yr ymatebion i ymholiadau i lawr oherwydd bod staff yn methu cael mynediad at y casgliadau yn ystod y cyfnod clo
- (ii) Boddhad gyda'r ymweliadau digidol wedi syrthio'n fyr o 1% o'r targed yn unig

- (iii) Mae'r bocsys llwyd yn rhai ble nad oedd gweithgaredd yn medru digwydd yn ystod y cyfnod clo

### **Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ei adroddiad; mae rhai o'r materion wedi eu crybwyll yn barod, ond nodwyd y canlynol yn ogystal;

- Y trafodaethau sy'n digwydd gyda gwleidyddion o'r prif bleidiau ynghylch sefyllfa ariannol y Llyfrgell.
- Gŵyl y Gelli – mae'r Llyfrgell yn cynnal trafodaethau gyda Peter Florence, Prif Weithredwr Gŵyl y Gelli, gyda'r bwriad o ddatblygu partneriaeth neu gytundeb o gydweithio rhyngom ni â'r Wyl. Ymhlith yr hyn a drafodwyd yw presenoldeb y Llyfrgell yn yr Wyl yn y Gelli a'r posibilrwydd o gyd-drefnu gŵyl amgen hanner ffordd drwy'r flwyddyn yma yn Aberystwyth gyda'r pwylsais ar faterion Cymraeg a Chymreig. Mae'r Llywydd ar hyn o bryd yn trefnu cyfarfod pellach gyda Peter Florence.
- Archif Ddarlledu - diolchodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd i'r aelodau oedd wedi ymateb i'r newidiadau a gynhwyswyd yn y cynllun diwygiedig. Mae'r cynllun wedi ei yrru at HLF a bydd cyfarfod ar y 30 Gorffennaf ble bydd cyfle i egluro ymhellach a derbyn eu barn ar y cynllun diwygiedig. Mae Bwrdd Rheoli'r BBC wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynllun diwygiedig, ac ym marn llawer ohonynt, mae'n rhagori ar y cynllun gwreiddiol. Mae'r partneriaid yn Wrecsam, Caerdydd a Chaerfyrddin hefyd yn hapus i gefnogi'r cynllun diwygiedig. Mae'n gwbl hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'u cefnogaeth. Mae £1m o arian cyfalaf wedi ei neilltuo ar gyfer y prosiect ond gan nad oes bwriad bellach i godi'r adeilad, bydd angen darparu tystiolaeth o'r newydd i'r Llywodraeth o ran sut y bwriedir gwario'r arian ar gyfalaf.

Gofynnodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd i'r aelodau gymeradwyo'r datganiad yn ymwneud â Black Lives Matter fel arwydd o gefnogaeth i'r ymgyrch. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i gymeradwyo a chefnogi'r datganiad, ond ar y sail bod rhaglen waith o sut bydd y Llyfrgell yn gweithredu yn cael ei drafftio i gyd-fynd â'r datganiad.

Mynegwyd pryder gan yr Ymddiriedolwyr ynglŷn â'r ffaith fod y frigâd dan wedi ei galw i ddelio â digwyddiad yn Hydref 2019 ble bu i offer or-gynhesu; mae'r isadeiledd yn peri pryder mawr, ac mae llawer o'r offer yn syrthio'n is na safonau modern, sy'n peri risg i'r Llyfrgell. Mi fydd y Tîm Gweithredol yn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru wythnos nesaf i drafod anghenion cyfalaf, a bydd y swyddogion yn pwysleisio'r pwysigrwydd o adfer y grant cyfalaf blyneddol. Gofynnodd y Llywydd i'r swyddogion adrodd yn ôl ar y trafodaethau hynny i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Awst.

## **Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg**

### **4.1 Cofrestr Risg Corfforaethol**

Cyflwynwyd y Gofrestr gan Emyr Phillips, a nododd fod un risg newydd wedi ei hychwanegu *Reopening plans for the Library following Covid-19 pandemic are ineffective. Covid-19 transmission occurs within the Library requiring RIDDOR notification or in extreme circumstances, possible corporate manslaughter.*

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn hapus gyda chynnwys y Gofrestr Risg.

Nododd y Llywydd ei bod wedi gofyn i'r cofrestr risg adrannol hefyd gael eu cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi i ddiweddarau'r Bwrdd ynglŷn â'r risgiau sydd wedi codi yn ystod cyfnod y pandemig.

### **4.2 Diogeledd Seiber – diweddiariad**

Cyflwynodd Illtud Daniel adroddiad yn amlinellu'r gweithgaredd ychwanegol seiber ddiogeledd sydd wedi codi yn sgil pandemig Covid-19 mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin.

Nododd Illtud fod gan y Ganolfan Genedlaethol ar Ddiogeledd Seiber becyn cymorth ar gyfer aelodau Bwrdd yn ymwneud â diogeledd seiber. Gofynnwyd i Glerc y Bwrdd cyd gysylltu trefnu cyfarfod i Illtud a'r Ymddiriedolwyr i drafod hyn.

### **4.3 Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Lles**

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin, ac mae'n cyflawni un o argymhellion yr archwilwyr mewnol a wnaed yn yr archwiliad ar Iechyd a Diogelwch.

Cymeradwywyd yr adroddiad gan yr Ymddiriedolwyr.

### **4.4 Hysbysiad Rheolaethol y Comisiwn Elusennau**

Derbyniwyd e-bost gan y Comisiwn Elusennau, sydd wedi ei rannu gyda'r Ymddiriedolwyr ar e-bost yn dwyn sylw Ymddiriedolwyr at anghenion llywodraethiant yn ystod cyfnod y pandemig; mae'n dda medru adrodd fod y Llyfrgell yn cydymffurfio.

## **Adran 5 Materion Ariannol**

### **5.1 Cyfrifon Blynyddol Statudol Drafft ac Adroddiad Archwilio'r Cyfrifon (ISA260)**



Cyflwynwyd y Cyfrifon gan Emyr Phillips, a nododd fod y rhain eisoes wedi cael eu cyflwyno a'u craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Amlygwyd y canlynol gan David Michael;

- Ar dudalen 31, noder bod cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig wedi syrthio o £692k i £338k, a bydd angen i'r Llyfrgell ddefnyddio ei chronfeydd preifat i gadw'n fusnes gweithredol
- Diffyg o £24,490k yn y gronfa bensiwn – cyfradd disgownt y Trysorlys sydd wedi ei ddefnyddio i asesu hyn
- Mynegeo'r adeilad - gwerth yr adeilad wedi mynd i lawr £3,393k yn dilyn ailbrisiad

Diolchodd y Llywydd i Emyr a'i dîm am lwyddo i gwblhau'r Cyfrifon mewn da bryd ar gyfnod heriol, ac am sicrhau barn ddiamod gan Archwilio Cymru. Cymeradwywyd y Cyfrifon Statudol gan yr Ymddiriedolwyr.

Cynigiodd Emyr gynnal sesiwn gyda'r Ymddiriedolwyr i fynd trwy'r Cyfrifon yn fanylach a chynnig esboniadau am agweddau penodol ohonynt. Croesawyd hyn gan yr Ymddiriedolwyr a bydd Emyr a Chlerc y Bwrdd yn trefnu dyddiad ar gyfer cynnal sesiwn o'r fath.

## **5.2 Cyfrifon Rheoli Mehefin 2020**

Cyflwynwyd y Cyfrifon Rheoli gan Emyr Phillips, a nododd fod hyn wedi bod yn gyfnod tawel dros ben oherwydd Covid-19, y ffaith nad oedd staff yn yr adeilad, a bod gwaith ar yr adeilad heb ddigwydd oherwydd y pandemig.

Diolchwyd i Emyr am baratoi'r Cyfrifon Rheoli, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr.

## **Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau**

### **6.1 Cofnodion Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 21.04.20 a 12.06.20**

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Lee Yale-Helms, a nododd ei fod wedi adrodd ar lafar ar gofnodion 21.04.20 yng nghyfarfod y Bwrdd ar 01.05.20.

Roedd un eitem yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor ar 12.06.20 oedd angen cymeradwyaeth y Bwrdd, sef cais i gymeradwyo cyfraniad o £110k o'r cronfeydd preifat i ymestyn prosiect yr Archif Gerddorol am gyfnod o 12 mis o Ragfyr 2020 hyd Ragfyr 2021. Yn dilyn trafodaeth, fe gafwyd pleidlais ble roedd mwyafrif yr Ymddiriedolwyr o blaid cymeradwyo'r cyfraniad o £110k a fyddai'n golygu y byddai'r prosiect yn cael ei gwblhau.

### **6.2 Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 26.06.20**

Nid oedd gan Gadeirydd y Pwyllgor, Hugh Thomas, unrhyw beth i'w ychwanegu at y cofnodion, heblaw am nodi fod aelodau'r Pwyllgor wedi cynnal sesiwn breifat, heb y Tîm Gweithredol yn bresennol, gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol am y tro cyntaf, ac roedd yr archwilwyr yn croesawu'r ymarfer yma.

### **6.3 Cofnodion Panel Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 03.07.20**

Cyflwynwyd y cofnodion gan Gadeirydd y Panel, Liz Siberry, ac nid oedd dim oedd am ei amlygu, ond roedd am ddatgan ei boddhad o weld gwaith ar yr adeilad wedi ail gychwyn.

Roedd hefyd yn awyddus i gael rhestr blaenoriaeth ar gyfer y gwaith cyfalaf ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

#### **6.3.1 Diweddariad ar y Gwaith Adeiladu**

Cafwyd y diweddariad canlynol gan David Michael ynglŷn â'r adeilad

- (i) To'r storfa allanol (outstore) yn gollwng – bydd yn rhaid mynd allan i dendr
- (ii) Y frigâd dan wedi nodi fod angen sustem darganfod tan yn y dyctiau o dan yr hen adeilad
- (iii) Mae'r Llyfrgell yn negodi gyda'r contractwr presennol i uwchraddio sustem drydanol Oriol Gregynog

Diolchodd y Llywydd am y diweddariad, a gofynnodd i adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd ynglŷn â'r gwaith adeiladu.

### **Adran 7 Unrhyw fater arall**

#### **7.1 Cylch Busnes 2020**

Nodwyd cynnwys y Cylch Busnes, sydd wedi ei ddiweddarau yn sgil Covid-19.

#### **7.2 Cynllun Awdurdod Dirprwyo**

Cyflwynwyd y Cynllun gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a rhoddodd sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr y bydd y Cynllun a'r Rheoliadau yn cael eu diwygio'n flynyddol gan gychwyn ym mis Medi 2020.

#### **7.3 Penodiadau Cyhoeddus**

Cyfeiriodd y Llywydd at neges Siân Bryant ynglŷn ag ail gychwyn ymgyrch recriwtio, oedd er gwybodaeth yn unig i'r aelodau.

## **8. Unrhyw fater arall**

Dim materion arall i'w trafod.

**\*\* DIWEDD Y CYFARFOD AGORED \*\***